Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 837 (Cy.106)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud	- -	*18 Mawrth 2003*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 38, 39 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, cymhwyso ac effaith

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2003, a deuant i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Diwygir Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986(**2**) yn unol â darpariaethau canlynol y Rheoliadau hyn.

Diwygio paragraff 8A yn Atodlen 1

2. Diwygir paragraff 8A yn Atodlen 1 (Cwynion) yn unol â'r paragraffau canlynol—

(a) ym mharagraff 7(b)(ii) yn lle'r gair "three", rhodder y gair "two"; a

(**1**) 1977 p.49; *gweler* adran 128(1), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) ("Deddf 1990"), adran 26(2)(g) ac (i) i gael y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".
Estynnwyd adran 38 gan Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.49), adran 13; gan O.S. 1985/39, erthygl 7; Deddf yr Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) ("Deddf 1995"), adran 2(1), Atodlen 1, paragraff 27, a Deddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol 1984 (p.48) ("Deddf 1984"), adran 1.
Diwygiwyd adran 39 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15) ("Deddf 2001"), adrannau 20(1), (5)(a)(b) a 23(1), (4); gan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17) ("Deddf 2002"), adran 2(5), Atodlen 2, Rhan 1, paragraffau 1, 12(1) a (4)(b); gan Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) ("Deddf 1999"), adran 9(4); gan Ddeddf y Gwasanaethau Iechyd 1980 (p.53), adrannau 1 a 2, Atodlen 1, paragraff 52; gan Ddeddf 1984, adran 1, Atodlen 1, Rhan 1, ac adran 24, Atodlen 8, Rhan 1 a Deddf 1995, adran 2(1), Atodlen 1, paragraff 28.
Diwygiwyd Adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2); gan Ddeddf 1999, adran 65(1), Atodlen 4, paragraffau 4, 37(1) a 6; gan Ddeddf 2001, adran 67(1), Atodlen 5, Rhan 1, paragraffau 5(1) a 13(b) a chan Ddeddf 2002, adran 6(3)(c).
O ran Cymru, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 38 a 39 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 4 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo, O.S. 1999/672.

(**2**) O.S. 1986/975, yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S.1996/705 sy'n mewnosod paragraffau 8A, B ac C yn Atodlen 1 i'r prif Reoliadau.

(b) ym mharagraph (7)(c) yn lle'r ffigur "10", rhodder y ffigur "20".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

D. Elis-Thomas
Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

18 Mawrth 2003

(**3**) 1998 p.38.

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986 ("y prif Reoliadau") sy'n rheoleiddio'r telerau ynghylch darparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977.

Mae Rheoliad 2 yn cynnwys darpariaethau sy'n diwygio'r cyfnod o amser sydd gan gontractwyr, fel y diffinnir hwy yn y prif Reoliadau, i ymateb i gwynion a wneir gan neu ar ran cleifion neu gleifion blaenorol. Caiff yr amser a ganiateir i gontractwyr gydnabod cwynion yn ffurfiol ei leihau o dri diwrnod i ddau ddiwrnod (ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith a gwyliau banc), tra caiff yr amser a ganiateir i roi i achwynydd grynodeb ysgrifenedig o ymchwiliadau a chasgliadau ei gynyddu o 10 i 20 diwrnod gwaith (ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith a gwyliau banc).